*Cyn cychwyn y cyfarfod, croesawyd Ana atom o Batagonia. Arwyddwyd a chyfnewidiwyd dogfennau gefeillio rhwng Llanuwchllyn a'r Gaiman.*

**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**2/5/23**

**Presennol:** **Y Cynghorwyr** Euros Roberts, Huw Antur, Llinos Edwards, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Alwyn Roberts, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd)

1 Derbyniwyd Adroddiad y Cadeirydd ar waith y Cyngor yn y flwyddyn 2022-23 a diolchodd yr is-Gadeirydd am drylwyredd ei gwaith a 'i hymroddiad i'r Cyngor.

2 Etholwyd Euros Roberts yn Gadeirydd am y flwyddyn 2023-24. Diolchodd i'r Cyngor am ymddiried y swydd iddo.

3 Etholwyd Llinos Edwards yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2023-24.

4 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2023.

5 Gohiriwyd mater cymeradwyo enw i sedd wag Elusen The Maurice Vaughan Charity yn dilyn colli Mr Caradog Evans hyd nes bydd yr Ymddiriedolwyr wedi cyfarfod. Croesawyd yn y cyfamser awgrymiadau o enwau i'w mynegi wrth y Cadeirydd. Talwyd teyrnged i waith Mr Caradog Evans fel Cadeirydd cywir a doeth yr Elusen ar hyd y blynyddoedd.

6 Penodwyd Cynghorwyr i weithredu ar is-bwyllgorau:

- **Is bwyllgor Cyllid: Cadeirydd y Cyngor,** Euros Roberts, Alwyn E Jones, Huw Antur, Alwyn Roberts, Bethan Edwards, Lis Puw (+ Is-gadeirydd)
- **Is-bwyllgor Mynwentydd:** Alwyn Roberts (Cadeirydd), Heledd Jones, Huw Pierce Roberts, Arwel LL Jones, Bethan Edwards Alan Jones Evans,
- **Is-bwyllgor Asedau:** Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Arwel Lloyd Jones, Rhodri Jones, Bethan Edwards
- **Grŵp datblygu:** Huw Antur (Cadeirydd), Alwyn Evans Jones, Dewi Jones, Beryl Hughes Griffiths, Llinos Edwards, Cynghorydd Alan Jones Evans, Lis Puw
- **Is-bwyllgor y Nadolig:** Heledd Jones (Cadeirydd), Arwel Lloyd Jones, Alwyn Jones, Euros Roberts
- **Is-bwyllgor bioamrywiaeth:** Rhodri Jones (Cadeirydd), Euros Roberts, Llinos Edwards, Huw P Roberts, Lis Puw

Clerc: Lis Puw: 01678 540654 07896964120 cyngor-llanuwchllyn@outlook.com
Bedw Gwynion, Llanuwchllyn, Gwynedd LL23 7TW www.cynghoraupenllyncouncils.co.uk

- **TG:** Dewi Wyn Jones a'r Clerc

7. Enwebwyd Huw P Roberts yn gynrychiolydd i gyfarfodydd ardal Un Llais Cymru.
8. Enwebwyd Beryl Hughes Griffiths a Alwyn E Jones yn gynrychiolwyr i Bartneriaeth Penllyn.
9. Adolygwyd a chadarnhawyd y Rheolau Sefydlog (Noder: *disgwylir model newydd oddi wrth Un Llais Cymru )*
10. Adolygwyd a chadarnhawyd y Côd Ymddygiad .
11. Adolygwyd a chadarnhawyd y Rheoliadau Ariannol; nodwyd bod disgwyl diweddariad gan Un Llais Cymru ac y bydd yn cael ei ystyried gan y Cyngor.
12. Lwfansau Cynghorwyr:
    a. Cytunwyd i beidio mabwysiadu cynllun tal mynychu cyfarfodydd.
    b. Cytunwyd i dalu lwfans o £156 yr un i bob Cynghorydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. *Nodwyd y gall unigolion wrthod derbyn y tal hwn trwy lythyr at y Clerc.*
    c. Cytunwyd i dalu 0.45c y filltir os yn teithio ar fusnes y cyngor.
    d. Cytunwyd i dalu am aros dros nos os ar fusnes y Cyngor.
    e. Cytunwyd i dalu costau gwarchod os bydd Cynghorydd yn mynychu cyfarfod neu ar fusnes y Cyngor.
13. Adolygwyd rhestr eiddo ac asedau'r Cyngor.
14. Ystyriwyd statws Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol, ond nid yw'r Cyngor yn gymwys.
15. Penodwyd dyddiadau cyfarfod ar gyfer y flwyddyn 2023-24:

| | | |
|---|---|---|
| 6/6/23 | 7/11/23 | 5/3/24 |
| 4/7/23 | 5/12/23 | 2/4/24 |
| 5/9/23 | 2/1/24 | 7/5/24 Cyfarfod Blynyddol 2024-25 |
| 3/10/23 | 6/2/24 | |